

Cyngor Cymuned Y Bontnewydd
COFNODION CYFARFOD MISOL
7 Ebrill 2016 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

PRESENNOL :

Cynghorwyr: Dafydd Iwan, Edd Hughes, Emyr Williams
Cadeirio: Erddyn Davies
Huw Llwyd Rowlands, Clerc

1. YMDDIHEURIADAU

Ian Jones, Chris Hughes, Geraint R. Jones, Ifor Dylan Williams, Gwyneth Thomas

2. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL

Datganwyd diddordeb gan y canlynol yn Eitem 6 – Rhoddion:-

Cynghorydd Erddyn Davies - Clwb Pêl Droed Bontnewydd
Cynghorydd Dafydd Iwan – Y Ganolfan

3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cadarnhawyd. Cynnig: Dafydd Iwan
Eilio: Edd Hughes

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

4.1 Biniau halen

Eglurodd y Clerc ei fod wedi ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn gofyn iddynt lenwi tri bin halen o fis Hydref ymlaen, sef dau ar Lôn Llanfaglan ac un ar Lôn Groes. Cost hyn fydd £240 y flwyddyn am eu llenwi unwaith.

Nododd y Clerc hefyd ei fod wedi derbyn gohebiaeth gan Un Llais Cymru yn dweud fod rhai cynghorau cymuned am gymryd y cyfrifoldeb dros lenwi'r biniau eu hunain, ond nad oedd Cyngor Gwynedd ar hyn o bryd yn fodlon cytuno i hyn, gan mai y nhw fyddai dal berchen ac yn gyfrifol a y biniau.

4.2 Cylchdro Glan Beuno

Cafodd y Clerc ateb gan Lywodraeth Cymru wedi iddo ysgrifennu atynt yn dilyn derbyn yr adroddiad cynhwysfawr ar lif y traffig ym Montnewydd ac o amgylch cylchdro Glan Beuno.

Ymateb Llywodraeth Cymru oedd bod yr argraff o berygl yn anodd iawn i'w fesur fel rhan o'r peilot. Penderfynwyd felly mai'r ffordd orau i gloriannu effaith cau'r lôn fyddai'r amser a gymer i adael Glan Beuno.

Yn ogystal, yn ôl Llywodraeth Cymru, cafwyd mwy o sylwadau negyddol nag o rai cadarnhaol ynghylch y dyluniad newydd, er bod y Cyngor Cymuned yn teimlo bod trigolion ar y cyfan yn cefnogi dyuniad y peilot.

O gofio na fu gwrthdrawiad ar y safle am wyth mlynedd, ac hefyd dyfodiad y ffordd osgoi penderfynwyd monitro'r sefyllfa, yn hytrach na chymryd camau gweithredol y tro yma.

4.3 Parcio Siop McColl's

Yn dilyn gohebu efo'r Asiantaeth Priffyrdd, deallir fod y gwaith a marciau ffordd a osodwyd yn ddiweddar ym Montnewydd, ac yn arbennig ym mharthau siop McColl's yn rhan o'r gwaith arfaethedig i arafu a lliniaru traffig o flaen y siop.

Deallir fod arwydd yn rhybuddio am y troad ger y siop i Res Malters i'w osod yn fuan, ac mae posibilrwydd y bydd addasiadau yn cael eu gwneud yn fuan i'r strbedi coch ar y ffordd oherwydd cwynion gan breswylwyr cyfagos am swm ceir wrth iddynt fynd drostynt.

4.4 Arwyddion cyflymder fflachio 20/30 mya

Cyngor Gwynedd sydd yn gyfrifol am y ffordd y tu allan i'r ysgol, ac meant wrthi'n y broses o gael y gorchymyn statudol priodol mewn lle er mwyn lleihau'r cyflymder i 20 mya. Eglurodd Cyngor Gwynedd mai'r rheswm dros yr oedi oedd mai ond y ddiweddar y cysylltodd yr Asiantaeth Priffyrdd efo Cyngor Gwynedd parthed y gwaith.

Disgwylir y bydd y cyfyngiad 20mya mewn lle erbyn diwedd gwyliau'r Pasg.

4.5 Tyfiant coed a Llysiau'r cythraul tu cefn i'r Newborough Arms Bontnewydd

Mae'r Clerc wrthi'n gwneud ymchwiliad pellach drwy gyfrwng y Gofrestrfa Dir i berchennog y tir ger ochr yr afon.

4.6 Ffordd osgoi Bontnewydd – Penybryn a Rhos Bach

Cafwyd ymateb gan Lywodraeth Cymru i lythyr y Clerc yn mynegi pryder am y bwriadau yn ardal Penybryn a Rhos Bach.

Ar gychwyn y broses o lunio llwybr y ffordd osgoi, penderfynwyd cadw Lôn Pen y Bryn yn agored a chau Lôn Rhos bach.

Fodd bynnag, yn ystod datblygiad y cynllun newidiwyd y rhain dros dro fel bod Lôn Rhos Bach yn cael ei chau. Ymgwymerwyd y newid hyn er mwyn lleihau y cyfaint o ddeunydd a fyddai'n angenrheidiol ar gyfer adeiladu y cynllun, drwy leihau yr arglawdd rhwng Cylchfan Meifod a'r chwarel. Trwy wneud hyn byddai hyd yr arglawdd yn gostwng 30%.

Roedd yr ymgynghoriadau a gynhaliwyd ar y pryd hefyd o blaid gostwng uchder yr arglawdd ger y chwarel, gan fod y trigoloin sy'n byw yn y cyffiniau yn bryderus ag uchder cyffredinol y ffordd newydd mewn perthynas a'u heiddo. Yn ogystal, roedd cyngor technegol yn nodi fod lleoli arglawdd mor fawr ger y chwarel yn annoeth oherywdd problemau sefydlogrwydd.

Roedd llawer o'r gynrychiolaeth a wnaethpwyd yn ystod y cyfnod datblygu yn ymwneud â symudiad defnyddwyr ffyrdd eraill yn ardal Rhos Bach/Pen y Bryn. Daethpwyd i'r casgliad y byddai angen o leiaf cynnal mynediad cerddwyr, seiclwr a marchogion dros y brif ffordd yn y fan hyn. Ychydig iawn a o gynrychiolaeth sydd wedi bod am gadw y ddwy ffordd yn agored.

Gofynnwyd i'r Clerc ofyn i Lywodraeth Cymru am ddiweddariad ma amserlen y ffordd osgoi.

4.7 Bin arosfan Bontnewydd

Nid yw Cyngor Gwynedd yn fodlon talu am osod bin yn yr arosfan. Cost bin i'w osod ar y polyn lamp fydd o leiaf £100 a TAW, a chostau gosod.

Yn ychwanegol at hyn, bydd yn rhaid talu Cyngor Gwynedd £3.11 bob tro y byddent yn ymled i wagio'r bin, boed y bin angen ei wagio ai peidio.

Cafodd y Clerc drafodaeth efo Pennaeth Gwasanaethau Glanweithdra Strydoedd Cyngor Gwynedd a oedd wedi gofyn am adroddiad gan wardeniaid stryd. Adroddiad y wardeiniaid yn dilyn cyfnod o arsylwi oedd nad oedd yna dystiolaeth fod problem sbwriel amlwg yn y fan yma. Gan hynny, awgrymwyd fod y sefyllfa yn cael ei fonitro am gyfnod o dri mis, cyn gwneud penderfyniad. Eglurwyd y gallai gosod bin ddenu mwy o swbriel wrth i gerbydau o'r dref ddefnyddio'r gilfan a'r bin er mwyn gwaredu gwastraff o'u ceir. Hefyd, mae tystiolaeth fod biniau yn medru atynu mwy o sbwriel wrth i bobl eu defnyddio i gael gwared o eiddo.

Cytunwyd i fonitro'r sefyllfa a thrafod y mater eto yng nghyfarfod Gorffennaf 2016.

4.8 Llifogydd Bontnewydd

Cafwyd ateb gan Gyngor Gwynedd oedd yn nodi eu bod wedi gorffen adroddiad i'r lifogydd ym Montnewydd. Mae disgwyl barn Cyfoeth Naturiol Cymru ar yr adroddiad cyn ei ryddhau.

Y cam wedyn fydd paratoi Adroddiad Gwerthuso prosiect fydd yn gosod argymhellion i ddelio efo'r broblem ac o gymorth i wneud cais am fid ariannol gan Lywodraeth Cymru.

4.9 Postyn beic Y Foryd

Eglurodd y Clerc ei fod wedi cysylltu efo Cyngor Gwynedd yn dilyn trafodaethau fu rai misoedd yn ôl, er mwyn gweld pe byddai ganddynt unrhyw arian dros ben ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i gyfrannu at osod postyn beic yn Y Foryd.

Yn anffodus does dim arian nag offer gan Gyngor Gwynedd, a byddai'n rhaid felly i Gyngor Cymuned Y Bontnewydd osod y postyn ar eu cost eu hunain.

Byddai'r gost tebygol yn agos at £500 - £200 i osod y postyn yn y ddaear, cost y postyn a bolard er mwyn sicrhau na fyddai gyrrwyr ceir yn taro'r postyn yn y twyllwch.

Penderfynwyd fod y gost yn ormod i gyfiawnhau talu am osod postyn beic.

5. MATERION ARIANNOL

5.1 Cyflog a chostau clerch Mawrth 2016

£208.18 - £41.80 treth incwm = £166.38 + costau swyddfa £45.00

Cyfanswm Gros £253.18

Cyfanswm Net £211.58

5.2 Costau postio £1.59

5.3 Cost cofrestru enw gwefan allanol 2015/16 £13.19

5.4 Costau Archwiliwr Mewnol John Roberts 2015/16 £65.00

5.5 Costau Owain Bebb a'i Gwmni 2015/16 £144.00

5.6 Balans yn y banc 31 Mawrth 2016 £6055.54

6. RHODDION ARIANNOL

Cytunwyd i roi y rhoddian ariannol canlynol:-

- Ysgol Gynradd Bontnewydd - £250
- Clwb Pêl Droed Bontnewydd - £300
- Cylch Meithrin Bontnewydd - £500
- Eisteddfod Ieuenctid Bontnewydd - £100
- Papur Bro Lleu - £50
- Hwyl y Bont - £350
- Canolfan Bro Llanwnda - £50
- Eisteddfod yr Urdd Fflint 2016 - £100
- Cymdeithas Lenyddol Bontnewydd - £50
- Y Ganolfan - £2,810

Cytunwyd fod y rhodd a roddywd I'r ganolfan yn swm sylfaenol nad oedd yn cynnwys unrhyw gostau cynnal a chadw. Osbydd gan Y Ganolfan unrhyw gostau cynnal a chadw yn ystody flwyddyn, bydd yn rhaid I Bwyllgor y ganolfan wnedu cais pellach am arian ychwanegol.

7. Cynllunio a Materion Cyfreithiol Eraill

Dim.

8. GOHEBIAETH

- Llythyr diolch Alun Ffred Jones AC
- Cymhorthfa bws 12 Ebrill
- Cyngor Iechyd Cymuned
- Swyddfa dreth Porthmadog
- Cynllun storfa bwmp Glyn Rhonwy
- Cyflwyno Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd Gwynedd a Môn

Derbyniwyd yr uchod er gwybodaeth, ond gofynnwyd i'r Clerc gydnabod llythyr Alun Ffred Jones ac ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn mynegi pryder am y bwriad i gau Swyddfa dreth Porthmadog.

8. MATERION ERAILL

8.1 Apwyntio Archwiliwr Allanol newydd – BDO.

Eglurodd y Clerc fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi apwyntio BDO fel yr Archwiliwr Allanol yn lle UHY.

Bydd y broses a disgwyliadau'r Archwiliwr Allanol yn newid ychydig hefyd, ac mae'n debyg y bydd y drefn yn fwy llym.

Er fod y broses i fod yn un gwbl ddwyieithog, mynegwyd anhapusrwydd fod Archwiliwr Allanol y tu allan i Gymru wedi ei apwyntio. Yn ogystal, deallir mai dim ond un siaradwr Cymraeg sydd gan BDO ac ymddengys mai ar gael yn ôl yr angen y mae hwnnw yn hytrach na bod yn aelod craidd o BDO.

Cytunwyd fod y Clerc yn ysgrifennu at Swyddfa Archwilio Cymru yn mynegi pryder am apwyntiad BDO a'r gwasanaeth Cymraeg.

Cytunwyd apwyntio John Roberts fel yr Archwiliwr Allanol ar gyfer 2015/16

8.2 Tipio Slei Bach Lôn Groes

Bu mwy o dipio slei bach yn Lôn Groes, gyda dodrefn pren wedi cael eu tipio yno'n ddiweddar.

Mae'n amlwg nad yw'r broblem wedi ei datrys, a gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd.

DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

5 Mai 2016 am 7 yh Y Ganolfan, Bontnewydd. Bydd y Cyfarfod Blynyddol bryd hynny hefyd.

